ATODLEN 3

Rheoli a dileu TSE mewn anifeiliaid buchol

**Pa bryd y mae iawndal yn daladwy**

**8.** Rhaid i Weinidogion Cymru dalu iawndal—

(a) pan leddir anifail o dan yr Atodlen hon;

(b) pan fo anifail i'w ladd o dan yr Atodlen hon ac wedi ei brisio at ddibenion iawndal, ond bu farw (neu lladdwyd am resymau eraill) ar ôl ei brisio; neu

(c) pan fo anifail yn ddarostyngedig i gyfyngiad ar symud o dan yr Atodlen hon, ac y bu'n rhaid ei ladd fel mesur argyfwng, a milfeddyg wedi datgan mewn ysgrifen y byddai'r anifail, fel arall, wedi bod yn addas i'w fwyta gan bobl yn unol â Phennod VI of Adran I o Atodiad III i Reoliad (EC) Rhif 853/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n pennu rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd sy'n tarddu o anifeiliaid(**1**), ac mewn achos o'r fath yr iawndal fydd gwerth y corff (gan gynnwys y gwaed a'r croen).

(**1**) OJ Rhif L 139, 30.04.2004, t.55. Nodir testun diwygiedig Rheoliad (EC) Rhif 853/2004 yn awr mewn Corigendwm (OJ Rhif L 226, 25.6.2004, t.22).